



Dogfen Reoleiddio

POLISIÂU A GWEITHDREFNAU RHEOLEIDDIO

Polisi Interim Chwythu'r Chwiban

Medi 2017

Rheoli fersiynau

Cymeradwywyd y fersiwn (interim) hon o Bolisi Chwythu'r Chwiban Cymwysterau Cymru ar 20 Gorffennaf 2017.

Byddwn yn adolygu datganiadau polisi ac, os ydym o'r farn ei bod yn briodol o ganlyniad i adolygiad, byddwn yn paratoi datganiadau diwygiedig. Byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar gynnwys y polisi hwn ac yn ceisio cyhoeddi Fersiwn 1 o'r polisi o fewn y 12 mis nesaf.

Croesewir adborth ar y polisi hwn ar unrhyw adeg. Anfonwch eich sylwadau i policy@qualificationswales.org.

CYNNWYS

EGWYDDORION CYFFREDINOL POLISI INTERIM CHWYTHU'R CHWIBAN PWY ALL FOD YN CHWYTHWR CHWIBAN BETH Y GALL CHWYTHWR CHWIBAN EI DDATGELU DATGANIADAU GWARCHODEDIG O DAN DDEDDF DATGELU ER LLES Y CYHOEDD 1998 CYFRINACHEDD CAMAU CYNTAF AMSEROEDD YMATEB Y BROSES AR GYFER YMDRIN Â DATGELIADAU CAMAU GWEITHREDU YN DILYN ADOLYGIAD/YMCHWILIAD

Egwyddorion cyffredinol Polisi Interim Chwythu'r Chwiban

Mae 'chwythu'r chwiban' yn golygu bod gweithiwr yn rhoi gwybod am gamweddau o ryw fath sydd wedi dod i'w sylw yn ystod ei waith¹.

Mae Cymwysterau Cymru yn ymrwymedig i sicrhau'r safonau uchaf posibl o ran bod yn agored, uniondeb ac atebolrwydd. Mae Polisi Chwythu'r Chwiban Cymwysterau Cymru yn sefydlu protocolau clir a thryloyw sy'n gofyn i unrhyw un a gaiff ei ystyried yn chwythwr chwiban ddatgelu unrhyw bryderon i Cymwysterau Cymru. Dim ond y meysydd lle mae gennym rôl ddilys yn ôl Deddf Cymwysterau Cymru 2015, neu lle rydym yn gorff a bennwyd o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998, y mae'r polisi hwn yn berthnasol iddynt.

Nod y polisi yw:

- rhoi eglurder o ran pwy y gellir ei ystyried yn chwythwr chwiban;
- rhoi eglurder o ran y math o ddatgeliadau y gallwn eu hystyried ac na allwn eu hystyried;
- amlinellu'r broses y byddwn yn ei dilyn wrth ymdrin â datgeliadau chwythwr chwiban.

¹Mae rhagor o wybodaeth am chwythu'r chwiban ar gael yn <https://www.gov.uk/whistleblowing/what-is-a-whistleblower>

Nid yw'r polisi hwn yn ymdrin â datgeliadau chwythwr chwiban amdanom ni, rhywun sy'n gweithio i ni neu ein contractwyr.

PWY ALL FOD YN CHWYTHWR CHWIBAN?

1. Bydd Cymwysterau Cymru yn ystyried unrhyw un sy'n gweithio ar ran:
 - corff dyfarnu a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ('corff dyfarnu');
 - canolfan yng Nghymru sy'n cynnig cymwysterau a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ('canolfan'²); neu
 - rhywun sy'n gweithio i unrhyw sefydliad sy'n ymwneud â datblygu neu ddyfarnu cymhwyster yng Nghymru y gallai ei arferion effeithio ar ddysgwyr yng Nghymru, megis y Cyngor Sgiliau Sector;

ac sy'n dymuno gwneud datgeliad yn uniongyrchol yn erbyn ei gyflogwr ar sail tystiolaeth sydd wedi dod i'w sylw fel rhan o'i waith, yn chwythwr chwiban.

2. Os oes gennych bryderon neu gŵyn am gorff dyfarnu, canolfan neu gymhwyster a gynigir yng Nghymru, ond nad ydych yn gweithio i'r corff dyfarnu na'r ganolfan, ni chewch eich ystyried yn chwythwr chwiban. Cyfeiriwch at ein polisi Cwynion am Gyrff Dyfarnu³ i gael gwybod sut i gyflwyno cwyn o'r fath a'r camau y byddwn yn eu cymryd i ymchwilio i'r mater a'i ddatrys.

BETH Y GALL CHWYTHWR CHWIBAN EI DDATGELU

3. Bydd Cymwysterau Cymru yn derbyn datgeliadau sy'n ymwneud â'r swyddogaethau rydym yn eu harfer o dan Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015. Byddwn yn derbyn datgeliadau am unrhyw gorff dyfarnu a gydnabyddir gan Cymwysterau Cymru nad yw'n bodloni ein gofynion rheoleiddio o ran cydnabod neu ofynion rheoleiddio ar gyfer unrhyw gymhwyster y mae'n ei gynnal i ddysgwyr yng Nghymru.

² Yn y polisi hwn, mae 'Canolfannau' yn cyfeirio at leoliadau lle mae dysgwyr yn astudio a lle y caiff asesiadau eu cynnal a'r darparwyr sy'n cynnig y rhain. Mae hyn yn cynnwys ysgolion, colegau a darparwyr dysgu seiliedig ar waith.

³ <http://qualificationswales.org/publications/complaints-about-awarding-bodies/?lang=cy>

4. Bydd Cymwysterau Cymru hefyd yn derbyn datgeliadau am arferion y tu allan i Gymru a all effeithio ar ddysgwyr yng Nghymru sy'n astudio ar gyfer cymwysterau a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru. O dan yr amgylchiadau hynny, bydd Cymwysterau Cymru yn ystyried a yw'r mater yn un y gall fynd i'r afael ag ef fel rhan o'i swyddogaethau ai peidio, a gall gyfeirio'r mater at gorff arall i'w ystyried lle bo'n briodol.
5. Mae ein gofynion rheoleiddio ar gyfer cyrff dyfarnu cydnabyddedig wedi'u nodi yn ein dogfennau rheoleiddio. Mae'n rhaid i bob corff dyfarnu gydymffurfio â'n Hamodau Cydnabod Safonol, a gall fod yn rhaid i rai cyrff dyfarnu fodloni gofynion rheoleiddio ychwanegol gan ddibynnu ar y cymwysterau y maent yn eu cynnig⁴.

DATGANIADAU GWARCHODEDIG O DAN DDEDDF DATGELU ER LLES Y CYHOEDD 1998

6. O dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998⁵, gall fod gan weithwyr ddiogelwch penodol wrth ddatgelu camymddygiad, camweinyddiaeth neu gamweddau sy'n dod i'w sylw yn ystod eu gwaith.
7. Mae Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 yn amlinellu'r mathau o "ddatgeliadau gwarchodedig" a'r diogelwch cyfreithiol cydgysylltiedig a roddir wrth wneud datgeliad o'r fath. Bydd gweithiwr yn gwneud "datgeliad gwarchodedig" ac yn cael ei ddiogelu o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 wrth wneud datgeliad i Cymwysterau Cymru os bydd y datgeliad hwnnw yn "ddatgeliad cymwys" yn ôl y diffiniad yn y Ddeddf ac yn cael ei wneud mewn ffordd a nodir yn y Ddeddf.
8. Mae "datgeliad cymwys" yn ddatgeliad o wybodaeth sy'n cael ei wneud er lles y cyhoedd ym marn y gweithiwr ac sy'n dangos un neu fwy o'r canlynol:
 - a) trosedd;
 - b) torri rhwymedigaeth gyfreithiol;
 - c) camweinyddiad cyfiawnder;
 - d) perygl i iechyd a diogelwch unigolyn;

⁴Mae rhestr lawn o'n dogfennau rheoleiddio ar gael yn <http://qualificationswales.org/media/2301/qwr0005-v80-qualifications-wales-regulatory-documents-list-300117.pdf>

⁵ <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/23/section/1>

- e) difrod amgylcheddol;
 - f) cuddio unrhyw un o'r uchod yn fwriadol.
9. Bydd "datgeliad cymwys" yn rhoi'r hawl i'r gweithiwr gael ei ddiogelu os bydd y gweithiwr, adeg ei wneud i Cymwysterau Cymru:
- (a) yn gwneud y datgeliad yn ddiwyll; a
 - (b) yn credu'n rhesymol:
 - (i) bod y methiant perthnasol yn dod o dan gylch gwaith y swyddogaethau a gyflawnir gennym o dan Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015; a
 - (ii) bod y wybodaeth a ddatgelwyd, ac unrhyw honiad sy'n rhan ohoni, yn sylweddol gywir.

Ni all Cymwysterau Cymru roi cyngor cyfreithiol ar hawliau o'r fath. Cyfrifoldeb y gweithiwr sy'n gwneud y datgeliad yw ceisio gwybodaeth a/neu gyngor cyfreithiol os bydd am gadarnhau ei sefyllfa mewn amgylchiadau o'r fath. Fel man cychwyn, efallai yr hoffai gweithwyr fynd i wefan Public Concern at Work⁶.

10. Mae eithriadau yn Neddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 sy'n nodi'r datgeliadau na ddylid eu hystyried yn "ddatgeliadau gwarchoddedig", megis:
- a) os bydd y gweithiwr yn cyflawni trosedd wrth ddatgelu'r wybodaeth;
 - b) os bydd y gweithiwr yn datgelu gwybodaeth a gafwyd drwy gyngor cyfreithiol (gwybodaeth gyfreithiol freintiedig).

Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth, a'r gweithiwr sy'n ystyried gwneud datgeliad fydd yn gyfrifol am geisio ei gyngor cyfreithiol ei hun.

CYFRINACHEDD

11. Ni fydd Cymwysterau Cymru yn enwi chwythwr chwiban pan nad oes rhaid i ni wneud hynny; fodd bynnag, efallai y bydd angen i ni roi enw'r chwythwr chwiban i'r unigolyn neu'r sefydliad y mae'n datgelu gwybodaeth amdano, yn enwedig os na allwn ymchwilio i'r datgeliad heb enwi'r unigolyn neu os bydd partïon eraill yn ymwneud â'r ymchwiliad megis yr heddlu. Felly, byddem yn

⁶Public Concern at Work – <http://www.pcaaw.co.uk/>

gwneud pob ymdrech i sicrhau nad yw chwythwr chwiban yn cael ei enwi lle bo hynny'n bosibl, ond **ni ellir gwarantu hyn ym mhob achos.**

Fel arfer, ni fyddwn yn caniatáu i unrhyw gorff arall weld gwybodaeth am ddatgeliad os nad yw'n rhan o'r broses. Byddwn yn rhannu gwybodaeth am ddatgeliadau, adolygiadau ac ymchwiliadau gydag adrannau eraill o'r llywodraeth neu sefydliadau eraill lle y bydd angen i ni gyflawni ein dyletswyddau cyfreithiol.

Byddwn yn cadw gwybodaeth am achosion unigol yn gyfrinachol oni fydd angen i ni ryddhau gwybodaeth o dan gyfreithiau perthnasol gan gynnwys Deddf Diogelu Data 1998 neu Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Byddwn yn derbyn a, lle bo angen, yn gweithredu ar ddatgeliadau dienw; ond mewn rhai achosion, gall ein hymchwiliadau gael eu rhwystro am nad yw'n hysbys pwy sydd wedi gwneud y datgeliad. Ni fyddem ychwaith yn gallu ymateb i'r rhai sy'n codi pryderon yn ddienw.

CAMAU CYNTAF

12. Os bydd gweithiwr yn pryderu am arferion ei gyflogwr o ran cymhwyster a reoleiddir gennym, dylai'r gweithiwr godi'r pryder hwn yn ffurfiol gyda'i gyflogwr yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn briodol mewn rhai achosion, felly byddem yn ystyried datgeliad chwythwr chwiban nad yw'n dilyn polisi chwythu'r chwiban y corff dyfarnu neu'r ganolfan ymlaen llaw.

Byddwn yn ymdrin â datgeliad chwythwr chwiban:

- os bydd yn ymwneud â chorff dyfarnu a gydnabyddir gennym neu gymhwyster a reoleiddir gennym
- pan fydd y datgeliad hwnnw yn ymwneud â chymwysterau y mae dysgwyr yng Nghymru yn astudio ar eu cyfer, neu'n debygol o effeithio ar ddysgwyr yng Nghymru⁷.

Ni fyddwn fel arfer yn ymdrin â datgeliad chwythwr chwiban:

⁷Dysgwyr yng Nghymru' yw'r dysgwyr hynny y mae'r rhan fwyaf o'r asesiadau ar gyfer eu cymhwyster yn cael eu cynnal yng Nghymru.

- pan fydd yn ymwneud â chorff dyfarnu nas cydnabyddir gennym neu gymhwyster nas rheoleiddir gennym;
- pan fydd y datgeliad hwnnw yn destun, neu wedi bod yn destun, achos cyfreithiol ffurfiol neu ymchwiliad gan yr heddlu, ar wahân i roi unrhyw wybodaeth newydd i'r parti perthnasol. Fodd bynnag, gallwn ymchwilio i ddatgeliad, dod â datgeliad i ben neu gymryd rhagor o gamau yn ei gylch pan fydd yr achos cyfreithiol perthnasol wedi dod i ben.

13. Os hoffech wneud datgeliad chwythwr chwiban, anfonwch e-bost i incidents@qualificationswales.org gan nodi'r teitl "Datgeliad Chwythwr Chwiban" ar eich neges, neu ysgrifennwch atom yn:

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2
Lôn Pencarn
Parc Imperial
Coedcernyw
Casnewydd
NP10 8AR

Dylech gynnwys cymaint o wybodaeth â phosibl yn eich datgeliad er mwyn ein helpu i weithredu'n effeithiol. Mae'r wybodaeth y byddem yn ei chroesawu yn cynnwys:

- beth rydych yn ei ddatgelu;
- ble y digwyddodd;
- pryd y digwyddodd;
- pwy oedd dan sylw / y rhai yr effeithiwyd arnynt;
- unrhyw dystiolaeth ategol.

Dylech hefyd ddarparu unrhyw rifau cyfeirnod hysbys a allai fod yn berthnasol, er enghraifft rhifau dysgwyr, cymwysterau neu ganolfannau.

AMSEROEDD YMATEB

14. Pan fydd chwythwr chwiban wedi rhoi manylion i ni, byddwn yn gwneud y canlynol:

- anfon cydnabyddiaeth i'r chwythwr chwiban, fel arfer o fewn 5 diwrnod gwaith i dderbyn y datgeliad yn y cyfeiriad neu drwy'r cyfeiriad e-bost a ddarparwyd;
- pan fyddwn yn penderfynu nad yw'r datgeliad yn addas i ni ymdrin ag ef, hysbysu'r chwythwr chwiban o'r penderfyniad i beidio ag ystyried y datgeliad, fel arfer o fewn 5 diwrnod gwaith i'r llythyr/e-bost cydnabod a, lle bo'n briodol, hysbysu'r chwythwr chwiban am sefydliadau eraill y gall fod yn ddefnyddiol iddo gysylltu â hwy;
- anelu at ddarparu ymateb mwy sylweddol o fewn 28 diwrnod gwaith i'r llythyr/e-bost cydnabod, os nad yw'r llythyr/e-bost cydnabod wedi cynnwys un. Os na allwn fodloni'r terfyn amser hwn, byddwn, yn ystod y cyfnod hwnnw, yn rhoi amserlen ddisgwyliedig i'r chwythwr chwiban ar gyfer ceisio rhoi ymateb sylweddol iddo.

Byddwn yn ymateb yn Gymraeg neu yn Saesneg, gan gadw at iaith y datgeliad.

Y BROSES AR GYFER YMDRIN Â DATGELIADAU

15. Fel arfer, byddwn yn ymchwilio i faterion a godwyd mewn datgeliad mewn tri cham lle bo angen: asesiad, adolygiad cychwynnol ac ymchwiliad ffurfiol.
16. Fel arfer, byddwn yn ymdrin â datgeliad drwy gynnal adolygiad o'r materion a godwyd ynddo yn y lle cyntaf. Byddwn yn cynnal asesiad o natur y datgeliad, gan gynnwys ymateb y corff dyfarnu i'r datgeliad lle bo'n briodol. Er mwyn penderfynu p'un a oes angen adolygiad cychwynnol, mae'n bosibl y byddwn yn ystyried polisiau a gweithdrefnau'r corff dyfarnu perthnasol, yn gwneud ymholiadau gyda'r corff perthnasol a/neu'n gwneud cais am ragor o wybodaeth gan bobl berthnasol (gan gynnwys y chwythwr chwiban, y corff dyfarnu perthnasol a, lle bo'n briodol, gyrff eraill).
17. Os penderfynwn nad yw'r datgeliad yn un y byddem yn ymdrin ag ef fel arfer, o ran y meini prawf a nodwyd ym mharagraff 6, efallai y byddwn yn cydnabod y datgeliad fel un sy'n berthnasol i waith rheoleiddio corff arall, megis Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru neu Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch Cymru. Yn yr achosion hyn, byddwn yn rhoi manylion cyswllt y corff hwn i'r chwythwr chwiban.

18. Ar ôl asesu'r materion a godwyd yn y datgeliad, efallai y byddwn yn penderfynu bod angen cynnal adolygiad cychwynnol. Os bydd canlyniad ein hasesiad yn golygu bod angen cynnal adolygiad cychwynnol, byddwn yn cymryd camau i gasglu tystiolaeth er mwyn profi bod y datgeliad yn wir. Gwneir hyn drwy wneud rhagor o ymholiadau gyda'r corff dyfarnu ac unrhyw barti perthnasol arall ac, o bosibl, ofyn am ragor o dystiolaeth. Bydd canlyniad yr adolygiad cychwynnol, a fydd yn esbonio p'un a oedd y mater a godwyd yn y datgeliad yn wir ai peidio, yn cael ei rannu â'r chwythwr chwiban a'r corff dyfarnu; ac, os profwyd bod datgeliad yn wir, efallai y bydd angen cymryd rhagor o gamau rheoleiddio. Ni fydd unrhyw dystiolaeth a gasglwyd gennym, naill ai yn ystod yr asesiad neu'r adolygiad cychwynnol, yn cael ei rhannu â'r chwythwr chwiban. Gall hyn gwmpasu adolygu neu ymchwilio'n ffurfiol i unrhyw faterion a godwyd, llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw faterion, cymryd camau rheoleiddio (y broses a'r canlyniadau i'w gweld yn y polisi Cymryd Camau Pan Aiff Pethau o Chwith⁸) neu ofyn am gymorth gan asiantaethau eraill megis yr heddlu wrth ymchwilio i faterion neu eu datrys.
19. Pan fydd chwythwr chwiban yn codi pryderon sylweddol ynghylch corff dyfarnu neu gymwysterau a reoleiddir, mae'n bosibl y byddwn yn cynnal ymchwiliad ffurfiol. Fel rhan o ymchwiliad ffurfiol i ddatgeliad, byddwn yn ymchwilio i'r materion a godwyd yn y datgeliad drwy gasglu tystiolaeth berthnasol. Diben ymchwiliad yw cadarnhau p'un a yw'r corff dyfarnu wedi cydymffurfio â rheoliadau neu ddeddfwriaeth berthnasol o'r fath fel sy'n berthnasol iddo mewn perthynas â'r datgeliad. Yn yr achosion mwyaf difrifol pan fydd datgeliadau yn cael eu cadarnhau, efallai y bydd angen i ni gymryd camau rheoleiddio – i gael rhagor o wybodaeth am hyn, darllenwch y polisi Cymryd Camau Pan Aiff Pethau o Chwith.
20. Gallwn ddatrys neu ddod ag unrhyw faterion sydd heb eu datrys i ben wrth fynd i'r afael â'r datgeliad neu ymchwilio iddo neu, yn yr achosion mwyaf difrifol pan fydd datgeliadau wedi'u cadarnhau, gallwn gymryd camau rheoleiddio os bydd ein hymchwiliad yn dod i'r casgliad nad yw'r corff dyfarnu wedi cydymffurfio ag unrhyw reoliadau perthnasol. Pan fyddwn yn ystyried cymryd camau rheoleiddio yn sgil datgeliad, a phan fydd gennym fanylion cyswllt y chwythwr chwiban sydd wedi'i wneud, byddwn yn rhoi gwybod i'r chwythwr chwiban mai

⁸ <http://qualificationswales.org/publications/july-2016-taking-action-when-things-go-wrong/?lang=cy>

hyn yw canlyniad ei ddatgeliad. Bydd unrhyw gamau rheoleiddio yn cael eu cymryd yn unol â'n polisi 'Cymryd Camau Pan Aiff Pethau o Chwith'. Os daethpwyd i'r casgliad nad yw corff dyfarnu wedi cydymffurfio â deddfwriaeth, byddem yn cyfeirio'r corff dyfarnu at yr heddlu a Gwasanaethau Erlyn y Goron. Fel arall, mae'n bosibl y byddwn yn dod i'r casgliad bod ein hymchwiliad wedi nodi materion nad ydynt yn rhan o'n cylch gwaith ond y gall corff arall ymchwilio iddynt.

21. Ni fyddwn yn barnu gwaith dysgwyr, ailfarcio gwaith dysgwyr na dweud wrth gyrrff dyfarnu am newid dyfarniadau, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol.
22. Gallwn ohirio neu atal ymchwiliad lle bo posibilrwydd y cynhelir achos cyfreithiol, troseddol neu sifil neu os bydd unrhyw berson yn gwneud unrhyw ddatganiad cyhoeddus yn ystod yr ymchwiliad a allai effeithio ar y canlyniad neu unrhyw achos troseddol neu sifil yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys os bydd y chwythwr chwiban yn trafod yr ymchwiliad gydag unrhyw bartion perthnasol.

CAMAU GWEITHREDU YN DILYN ADOLYGIAD/YMCHWILIAD

23. Os byddwch chi, fel chwythwr chwiban, yn anfodlon ar ganlyniad ein hymchwiliad i'ch datgeliad, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o'n penderfyniad.
24. Caiff yr adolygiad mewnol o'n penderfyniad ei gynnal gan adolygwr/adolygwyr mewnol a benodir gan Bennaeth ein Hadran Llywodraethu Corfforaethol. Bydd yr adolygiad mewnol fel arfer yn cael ei gynnal o fewn 28 diwrnod, a bydd yr adolygwr/adolygwyr mewnol yn rhoi datganiad i'r chwythwr chwiban sy'n nodi'r casgliad. Bydd y datganiad yn cynnwys argymhelliad i naill ai gadarnhau neu adolygu'r penderfyniad.
25. Os byddwch chi, fel chwythwr chwiban, yn anfodlon ar yr adolygiad mewnol o'n penderfyniad ynghylch eich datgeliad, gallwch gysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. I gael gwybodaeth am sut i wneud cwyn, defnyddiwch y manylion cyswllt canlynol:

- Ar-lein yn <http://www.ombudsman-wales.org.uk/en/Making%20a%20complaint.aspx>

- Dros y ffôn ar 0300 790 0203

Mae gan yr Ombwdsmon bwerau cyfreithiol i ystyried cwynion am wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ac mae'n annibynnol ar bob un o gyrff y llywodraeth.